Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr

Ffordd Pentrebaen,
Y Tyllgoed,
Caerdydd,
CF5 3PZ
029 20 405 499
post@ysgolplasmawr.cymru
@YsgolPlasmawr
Pennaeth: Mr John D Hayes

Pentrebane Road,
Fairwater,
Cardiff,
CF5 3PZ
029 20 405 499
post@ysgolplasmawr.cymru
@YsgolPlasmawr
Headteacher: Mr John D Hayes

Hydref 16eg, 2020

Annwyl riant / warcheidwad

Mae'n dda gen i adrodd wrthych chi fod nifer yr achosion positif o COVID-19 a adroddwyd i ni yn ystod yr wythnos ddiwethaf wedi lleihau yn sylweddol. Nid oes un achos positif wedi ei adrodd i ni ymysg disgyblion Blynyddoedd 7, 8 a 9 ers dydd Gwener, Hydref 9fed, ac er bod yna glwstwr bach o achosion positif ymysg myfyrwyr Blwyddyn 13 ar gychwyn wythnos yma, mae'r ffaith fod myfyrwyr y 6ed dosbarth yn gweithio gartref ar hyn o bryd wedi atal lledu'r feirws ymhellach ar draws y flwyddyn honno. Nid oes un achos positif ymysg y staff ers Hydref y 6ed ac, erbyn dydd Llun, Hydref 19eg bydd y mwyafrif helaeth o staff a fu'n hunan-ynysu am 14 diwrnod wedi dychwelyd i'r gwaith.

Rwy'n hyderus y byddwn yn medru croesawu pob disgybl yn ôl i'r ysgol yn ddiogel ar ddydd Llun, Hydref 19eg.

Yn ystod y bythefnos ddiwethaf, rydym wedi gwerthuso ein hasesiad risg COVID-19 gyda chefnogaeth ein swyddog Iechyd a Diogelwch mewn ymateb i'r cynnydd sylweddol yn achosion COVID-19 yn ein dinas. Gofynnaf yn garedig i chi atgyfnerthu pwysigrwydd y gweithdrefnau isod gyda'ch plentyn cyn iddynt ddychwelyd i'r ysgol ddydd Llun.

Symptomau COVID-19:
Mae'n hanfodol bwysig nad ydych yn anfon eich plentyn i'r ysgol os oes ganddynt unrhyw un o'r symptomau canlynol:

- tymheredd uchel: mae hyn yn golygu eich bod yn teimlo'n boeth i gyffwrdd ar eich brest neu eich cefn (nid oes angen i chi fesur eich tymheredd)
- peswch newydd, parhaus: mae hyn yn golygu pesychu llawer am fwy nag awr, neu dri neu fwy o byliau pesychu mewn 24 awr (os oes gennych beswch fel arfer, gall fod yn waeth nag arfer)
- colled neu newid i'ch synnwyr arogli neu flasu: mae hyn yn golygu eich bod wedi sylwi na allwch arogli na blasu unrhyw beth, neu mae pethau'n arogli neu'n blasu'n wahanol i'r arfer.

Yn wir, os oes gennych unrhyw amheuaeth am gyflwr iechyd eich plentyn, yna ystyriwch yn ofalus cyn anfon eich plentyn i'r ysgol; byddai'n well rhoi diwrnod neu ddau i weld a yw'r symptomau'n datblygu ymhellach nag anfon y plentyn i'r ysgol gydag unrhyw fath o amheuaeth am ei iechyd. Os yw eich plentyn yn dangos symptomau COVID-19, trefnwch brawf COVID cyn gynted â phosib a hunan-ynyswch nes i chi dderbyn y canlyniad.

Profion COVID-19:
Gofynnir yn garedig i chi gysylltu â'r ysgol yn syth os yw eich plentyn neu unrhyw aelod o'r teulu'n profi'n bositif am COVID-19. Bydd angen i bob aelod o'r teulu hunan-ynysu am 14 diwrnod o bryd cychwynnodd y symptomau. Cysylltwch drwy ffonio'r swyddfa yn ystod oriau ysgol neu e-bostiwch y wybodaeth at post@ysgolplasmawr.cymru <mailto:post@ysgolplasmawr.cymru>. Bydd angen i ni weld copi o'r neges fyddwch chi wedi ei dderbyn yn cadarnhau'r canlyniad positif. Mae unrhywun sy'n profi'n bositif i COVID-19 yn rhydd i ddychwelyd i'r ysgol ar yr 11eg diwrnod ar ôl i'w symptomau gychwyn ac mae rheiny sydd yn hunan-ynysu am 14 diwrnod yn rhydd i ddychwelyd i'r ysgol ar y 15fed diwrnod ar ôl eu cyswllt olaf gyda'r achos positif.

Olrhain cysylltiadau agos:
Ymhob achos positif, mae disgwyl i ni gynnal proses olrhain manwl i adnabod y cysylltiadau agosaf at yr achos positif hyd at 48 awr cyn i'r symptomau gychwyn. Unwaith fyddwn ni wedi adnabod y cysylltiadau agos, byddwn yn cysylltu

Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr

Ffordd Pentrebaen,
Y Tyllgoed,
Caerdydd,
CF5 3PZ
029 20 405 499
post@ysgolplasmawr.cymru
@YsgolPlasmawr
Pennaeth: Mr John D Hayes

Pentrebane Road,
Fairwater,
Cardiff,
CF5 3PZ
029 20 405 499
post@ysgolplasmawr.cymru
@YsgolPlasmawr
Headteacher: Mr John D Hayes

â rhieni'r unigolion hynny drwy e-bost neu neges destun yn eu hysbysu bod angen i'w plentyn hunan-ynysu am 14 diwrnod. Ein bwriad ymhob achos yw cyfyngu ar unrhyw darfu yn sgil achosion positif, ond, ar adegau, bydd yn rhaid ymestyn yr ymyrraeth i'r flwyddyn gyfan. Mae'r broses olrhain yn cynnwys adnabod y disgyblion hynny sydd wedi bod yn eistedd yn agos at yr achos mewn gwersi (mae ein cynlluniau eistedd yn hanfodol bwysig), yn ystod amser cinio ac wrth deithio yn ôl ac ymlaen i'r ysgol. Mae cadw disgyblion o fewn eu blynyddoedd ysgol tra'u bod ar safle'r ysgol yn allweddol wrth i ni geisio atal lledu'r feirws ar draws blynyddoedd ysgol.

Teithio ar fysiau yn ôl ac ymlaen i'r ysgol:
Os yw eich plentyn yn teithio ar fws yn ôl ac ymlaen i'r ysgol, eglurwch wrthynt eto bwysigrwydd gwisgo mwgwd a'r angen i gadw at yr un grŵp o ffrindiau ar y bws. Buasai eistedd yn yr un sedd ar gyfer pob siwrne yn gymorth hefyd. Tybed, oes yna ffordd arall, ddiogel y gall eich plentyn gyrraedd yr ysgol heb orfod teithio ar fws am y tro?

Amser cinio:
Anogwch eich plentyn i gymdeithasu gyda'r un grŵp o ffrindiau dosbarth amser cinio. Buasai darparu pecyn bwyd dyddiol yn osgoi gorfod ciwio gyda disgyblion ar hap o'r un flwyddyn am gyfnod estynedig wrth aros i fynd i mewn i'r ffreutur.

Gorchudd wyneb / Gwisgo mygydau:
Fel y gwyddoch, mae'n orfodol i bawb wisgo gorchudd wyneb mewn mannau cyhoeddus o fewn yr ysgol. Hoffwn annog disgyblion i wisgo gorchudd wyneb yn yr ystafelloedd dosbarth yn ogystal, er ni fedraf orfodi hyn.

Dysgu cyfunol:
Mae'r bythefnos ddiwethaf wedi ein galluogi i weithredu ein strategaeth dysgu cyfunol. Fe fyddwn yn anfon holiadur byr i rieni a disgyblion CA3 a CA5 dros y dyddiau nesaf er mwyn derbyn eich adborth am y profiad hwn. Fe fydd eich ymatebion yn gymorth wrth i ni ddatblygu ein strategaeth ymhellach. Mae ein defnydd o dechnoleg mewn gwersi yn mynd i gynyddu dros yr wythnosau nesaf. Mae croeso i ddisgyblion CA4 a CA5 yn enwedig ddod â'u dyfeisiadau diwifr i'r ysgol er mwyn eu defnyddio mewn gwersi.

Clybiau allgyrsiol:
Bydd clybiau allgyrsiol a gynhelir y tu allan yn ailgychwyn wythnos nesaf. Edrychwch am gyhoeddiadau ar gyfrifon trydar @plasaddgorff a @pel_droed

Hyfforddiant Mewn Swydd (HMS):
Er mwyn parhau â'r dysgu, rydym wedi penderfynu symud y diwrnod HMS a gynlluniwyd yn wreiddiol ar gyfer dydd Llun, Tachwedd 2il i ddyddiad arall yn hwyrach yn y tymor. Fe wnawn ni eich hysbysu o'r dyddiad newydd ymhen amser.

Cadwch yn ddiogel yn ystod y cyfnod anodd hwn

John Hayes
(Pennaeth)

Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr

Ffordd Pentrebaen,
Y Tyllgoed,
Caerdydd,
CF5 3PZ
029 20 405 499
post@ysgolplasmawr.cymru
@YsgolPlasmawr
Pennaeth: Mr John D Hayes

Pentrebane Road,
Fairwater,
Cardiff,
CF5 3PZ
029 20 405 499
post@ysgolplasmawr.cymru
@YsgolPlasmawr
Headteacher: Mr John D Hayes

October 16th, 2020

Dear parent / guardian

I am pleased to report that the number of positive COVID-19 cases reported during the past week has reduced significantly. Our last reported +ve COVID-19 case in Years 7, 8 and 9 was on Friday, October 9th. We have had reports of a small cluster of +ve COVID-19 cases amongst our Year 13 students at the beginning of this week, which has fortunately been contained as our 6th form students are currently working at home. Our last reported +ve COVID-19 case amongst the staff was on October 6th and, by Monday, October 19th, most of the staff who have been self-isolating will have returned to school.

I am confident that we can safely welcome all pupils back to school on Monday, October 19th.

During the past fortnight we have evaluated our COVID-19 risk assessment with the support of our Health and Safety officer in light of the rise in the number of +ve COVID-19 cases across the city. Could you please discuss the importance of the following issues with your child before they return to school on Monday?

COVID-19 symptoms:
Please do not send your child to school if they display any of the following symptoms:

- a high temperature: this means you feel hot to touch on your chest or back (you do not need to measure your temperature)
- a new, continuous cough: this means coughing a lot for more than an hour, or 3 or more coughing episodes in 24 hours (if you usually have a cough, it may be worse than usual)
- a loss or change to your sense of smell or taste: this means you have noticed you cannot smell or taste anything, or things smell or taste different to normal

I would urge you not to send your child to school if there is any doubt about the health of your child. It may be prudent to allow one or two days to see if the symptoms develop further rather than risk sending your child to school with potential COVID symptoms. If your child displays any symptoms, you must arrange a test as soon as possible and self-isolate until the test result is confirmed.

COVID-19 tests:
I would kindly ask you to inform the school as soon as possible if your child or any member of your household receives a +ve COVID-19 test result. If this occurs, all members of the household are required to self-isolate for 14 days from the onset of the symptoms. Please contact the school office during school hours, otherwise email: post@ysgolplasmawr.cymru. We will need to receive a copy of the confirmation text or email. Individuals who test +ve to COVID-19 are allowed to return to school on the 11th day from the onset of their symptoms and those who have been self-isolating for 14 days are allowed to return to school on the 15th day from their last known contact with the +ve case.

Tracking and tracing close contacts:
In every +ve case we are expected to conduct a thorough tracking and tracing exercise to identify the close contacts of the +ve case up to 48 hours prior to the symptoms emerging. Once we have conducted our tracking and tracing work, we contact the parents of the close contacts by letter or text informing them of the need for their child to self-

Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr

Ffordd Pentrebaen,
Y Tyllgoed,
Caerdydd,
CF5 3PZ
029 20 405 499
post@ysgolplasmawr.cymru
@YsgolPlasmawr
Pennaeth: Mr John D Hayes

Pentrebane Road,
Fairwater,
Cardiff,
CF5 3PZ
029 20 405 499
post@ysgolplasmawr.cymru
@YsgolPlasmawr
Headteacher: Mr John D Hayes

isolate for 14 days. Our aim is to minimise the disruption caused by the +ve case, but there are times when we will need to self-isolate the whole year group. The tracing process includes analysing class seating plans to identify which pupils were sat within 2m of the +ve case in all his/her lessons (hence the importance of seating plans), enquiring about lunchtime behaviour and travelling to and from school. You can hopefully appreciate the importance of our work in keeping year groups to certain areas of the school in order to avoid the spread of the virus from one year group to another.

Travelling to and from school by bus:
Could you please reiterate the importnace of wearing face coverings on school transport if your child travels by bus or coach to school? Keeping to the same friendship group when travelling on a bus and keeping to the same seats for every journey would also reduce the potential risk of transmission. I wonder, have you considered in the short term if there is another, safe means of travelling to school without having to catch the bus?

Face coverings / masks:
As you know, it is mandatory to wear a face covering in the communal areas in school. I would like to encourage as many pupils to take this practice into the classroom environment in a further attempt to reduce the possibility of viral transmission.

Lunch time:
Please could you encourage your child to stay within their class friendship group at lunchtime and it would be worth considering providing a packed lunch, as this would avoid having to spend a lengthy period of time queing for the canteen mingling with pupils from other classes within the same year group.

Blended learning:
This past fortnight has given us an opportunity to test our blended learning strategy for the first time and we will shortly be sending out a brief questionnaire to the parents and pupils in KS3 and KS5 to ask for feedback on their blended learning experience. We hope to improve our provision in case we need to utilise this strategy again. Our use of digital technology is likely to develop further over the next few weeks and I would encourage students especially in KS4 and KS5 to bring their own digital devices to school to use in their lessons.

Extra-curricular clubs:
Outdoor extra-curricular clubs will recommence next week. For details, follow the following twitter accounts: @plasaddgorff and @pel_dreoed

INSET day:
In an attempt to prioritise the continuation of learning, I have decided to move the date of our first INSET day of the year from Monday, November 2nd, to a date to be determined later in the term. We will inform you of the new date in due course.

Please keep safe during these difficult times

John Hayes (Headteacher)